ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cyfrol 1, Rhifyn 3 Tymor yr Haf 2005

Tîm Cwricwlwm TGCh

Cylchlythyr TGCh

Bydd cylchlythyrau'r dyfodol yn ymddangos fel cyhoeddiadau ar-lein yn unig! Gallwch eu darllen ar: ***www.learn-ict.org.uk/materials/newsletters.asp***

Cynnwys:

- Tipyn o CL@SS!
- CD-ROM y Blynyddoedd Cynnar
- Rhestr o gyrsiau Tymor yr Haf 2005 ar gyfer Cynradd, Uwchradd a Chynhwysiad
- Awgrymiadau Gwych
- Hwyl Fawr, Marcia
- Canolbwyntio ar Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill
- Canolbwyntio ar Ysgol Gynradd Cwmglas
- Holiadur Anghenion Datblygu Staff TGCh
- Meddalwedd ar gyfer Anturiaethau ac Efelychiadau
- Prosiect LeAP
- Geiriau ac Ymadroddion Dwyieithog TGCh

Cofiwch:

- Llinell Gymorth: 01792 636900 Desg Wasanaeth ar gyfer ymholiadau technegol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649 Tîm Cwricwlwm TGCh

Tipyn o CL@SS!

Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gais i fod yn rhan o Grŵp CL@SS (*Cyfrifiaduron wrth Ddysgu yn Ysgolion Abertawe*). Mae'r athrawon canlynol wedi'u penodi fel aelodau o'r grŵp:

Cynradd
Nicola Briggs (*YG Penyrheol*), Lee Burnell (*YI Gorseinon*), Adrian Byrne (*YG Danygraig*), Craig Cardiff (*YG Cadle*), Mike Daley (*YG Pontybrenin*), Karen David (*YG Townhill*), Geoffrey Davies (*YG Grange*), Darwyn Hopkins (*YG Cwmrhydyceirw*), Lloyd Jones (*YG St. Helen's*), Lynn Joseph (*YG Llanrhidian*), Tim Richards (*YG Manselton*), Joanna Roffey (*YG St. Thomas*), Llinos Scourfield (*YGG Lôn Las*), Adrian Smith (*YG Pontlliw*), Angela Thompson (*YG Penclawdd*)

Uwchradd
Dave Sharp (*YG Bishop Vaughan),* Graham Daniels (*YG Bryn Tawe*), Ian Hughes (*YG Bishop Gore*), Paul Davies (*Daniel James*)

Bydd y grŵp yn cwrdd unwaith y tymor dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd aelodau'r grŵp yn edrych ar amrywiaeth o faterion cwricwlwm TG yn cynnwys gwerthuso meddalwedd, cynhyrchu adnoddau a chynllunio.

Cadeirydd y grŵp fydd Dr. Dave Sharp ac fe'i cefnogir gan Lindsay Harvey, Howel Davies a Mary-Lynne Jones o'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp CL@SS yn Ysgol Gynradd Manselton ar ddydd Iau 9fed Mehefin,

Tipyn o CL@SS

gyda Dr Dave Sharp yn gadeirydd. Trafododd y grŵp ddulliau cyfathrebu rhwng cefnogaeth cwricwlwm a thechnegol, nodi arfer da a chreu a rhannu adnoddau dysgu ac addysgu. Caiff yr adnoddau eu cyhoeddi ar wefan Learn-ICT. Fel grŵp trawsgyfnod, bydd yn edrych yn ofalus ar y trosglwyddiad rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14eg Medi yn Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill.

CD-ROM y Blynyddoedd Cynnar

Mae'n bleser gennym gyhoeddi rhyddhau CD-Rom y 'Blynyddoedd Cynnar' yn fuan. Datblygwyd y CD gan Athrawon Ymgynghorol yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot mewn cydweithrediad ag athrawon ac ysgolion sy'n ymwneud â Phrosiect Kidsmart TGCh y Blynyddoedd Cynnar.

Mae cyfoeth o ddeunydd yn ymwneud ag arfer da wrth ddefnyddio TGCh yn addysg y Blynyddoedd Cynnar wedi'i gynnwys ar y CD, gan gynnwys gwybodaeth ar:

- Y Prosiect Kidsmart
- Dogfennau polisi ac asesu a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect
- Adnoddau fel Teganau Robot a chamerâu Digidol, gydag enghreifftiau arfer da o sut y gellir eu defnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu ar draws y Meysydd Canlyniadau Dymunol.
- Meddalwedd
- Gwefannau Blynyddoedd Cynnar

Gobeithir yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf y gellir defnyddio'r deunydd sydd ar y CD-ROM i ffurfio sail ar gyfer gwefan Blynyddoedd Cynnar.

(Debbie Roberts—Athrawes Ymgynghorol i'r Blynyddoedd Cynnar)

Rhaglen Cwrs Byr Cynradd — Haf 2005

Rhaglen Hyfforddi Cwricwlwm TGCh ar gyfer Tymor yr Haf 2005

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Amser
5ed Mai	Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i gefnogi'r Cwricwlwm Cynradd	9.00-3.30
10fed Mai	Defnyddio Safle NGfL Cymru i gefnogi'r Cwricwlwm Cymreig	9.00-3.30
18fed Mai	Defnyddio'r SmartBoard i Ddysgu ac Addysgu	9.00-3.30
26ain Mai	Fideo Digidol —Sut i'w wneud—At beth i'w ddefnyddio (Cwrs Trawsgyfnod)	9.00-3.30
7fed Meh	Defnyddio'r Rhyngrwyd a'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i Gefnogi Rhifedd	9.00-3.30
9fed Meh	Animeiddiad i Gefnogi'r Cwricwlwm (Cwrs Trawsgyfnod)	9.00-3.30
29ain Meh	Diwrnod Cydlynwyr TG — Sylwch ar y newid dyddiad!	
30ain Meh	Diwrnod Cydlynwyr TG — Sylwch ar y newid dyddiad!	9.00-3.30
5ed Gorff	Defnyddio'r Rhyngrwyd a'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i Gefnogi Llythrennedd	9.00-3.30

Rhaglen Cwrs Byr Uwchradd — Haf 2005

Peidiwch ag anghofio gwneud cais am y cyrsiau drwy gwblhau'r Ffurflen Gofrestru yn y Llyfryn Hyfforddi a Datblygu!

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Amser
14eg Ebr	Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i gefnogi dysgu Addysg Grefyddol	9.00-3.30
4ydd Mai	Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i gefnogi dysgu Hanes	9.00-3.30
19eg Mai	Flash—Cyflwyniad	9.00-3.30
26ain Mai	Fideo Digidol —Sut i'w wneud—At beth i'w ddefnyddio (Cwrs Trawsgyfnod)	
9fed Meh	Animeiddiad i Gefnogi'r Cwricwlwm (Cwrs Trawsgyfnod)	9.00-3.30
1af Gorff	Diwrnod Cydlynwyr TG — Sylwch ar y newid dyddiad!	9.00-3.30
14eg Gorff	Defnyddio TGCh i Gefnogi Celf a Dylunio	9.00-3.30

Rhaglen Cwrs Byr Cynhwysiad — Haf 2005

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Amser
11eg Mai	Clicker 4: Gwneud Cronfa Eiriau sy'n Siarad	9.00-4.00
17eg Mai	Cloze Pro	9.00-4.00
28ain Meh	Clicker 4: Gwneud Cronfa Eiriau sy'n Siarad	9.00-4.00

Awgrym Gwych — Chwarae DVD trwy'r Taflunydd Digidol

Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh wedi derbyn nifer o alwadau oddi wrth staff sy'n cael problemau wrth chwarae disg DVD ar gliniadur drwy daflunydd digidol. Mae'n debyg, er bod modd gwylio'r fideo ar y gliniadur, nad yw'n ymddangos drwy'r taflunydd. Gellir cywiro hyn fel arfer drwy *beidio â* dangos y ddelwedd ar y gliniadur drwy wasgu **Fn+F5** ar y bysellfwrdd. Pob tro y gwasgir y cyfuniad hwn, dangosir opsiynau ymddangos a gliniadur yn unig, y taflunydd yn unig, yna'r ddau. Sylwch bod maes newydd ar y wefan Learn-ICT a fydd yn darparu mwy o awgrymiadau, gwybodaeth a diweddariadau i chi ar gyfer eich llyfrgell meddalwedd: **http://www.learn-ict.org/**

Hwyl Fawr, Marcia!

Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn ffarwelio â Marcia Howell gyda theimladau cymysg wrth iddi ymddeol ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ymroddedig i'r awdurdod.

Yn gyntaf, rydym yn falch iawn dros Marcia ac yn dymuno ymddeoliad hir, hapus a iach iddi. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r bwlch y mae'n ei adael yn y tîm.

Yn athrawes brofiadol gyda blynyddoedd lawer o gyfrifoldeb Rheoli Uwch, secondiwyd Marcia i weithio fel hyfforddwr CCN mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn 1997. Am y tair blynedd diwethaf mae wedi bod yn gyfrifol am y rhaglen TILT lwyddiannus. Yn y rôl hon mae Marcia wedi helpu athrawon i ddatblygu hyder yn eu sgiliau TGCh eu hunain ac i integreiddio'r defnydd o TGCh i ddysgu ac addysgu. Yn amyneddgar, goddefgar a chefnogol, hi oedd y person delfrydol ar gyfer y rôl bwysig hon.

Mae'r tîm yn colli cydweithiwr a chyfaill, mae Marcia bob amser yno pan fydd angen rhywbeth arnoch. Byddwn yn gweld ei heisiau a gobeithiwn fod ganddi atgofion melys o'i hamser gyda ni.

Marcia Howell

Canolbwyntio ar Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill

Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous yn Townhill, wrth i ni osod Byrddau Gwyn Rhyngweithiol ym mhob grŵp blwyddyn, a phymtheg cyfrifiadur newydd sbon yn yr ystafell gyfrifiaduron. Mae'r caledwedd newydd wedi hwyluso bywyd yr athrawon, a gwneud gwersi'n fwy o hwyl i'r disgyblion. Mae Mrs Buss sy'n defnyddio'i Bwrdd Gwyn yn y llun wedi bod yn dysgu yn Townhill ers tri deg chwech o flynyddoedd ac yn methu dychmygu sut roedd yn ymdopi heb Fwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn ei dosbarth, yn enwedi gyda mathemateg, y mae hi'n ei gydlynu.

Daeth Lindsay Harvey i'r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn a chynnal Diwrnod HMS ar Compose, a oedd yn wych, er yn swnllyd!! Ar ôl y diwrnod hwnnw fe wnaethom ni benderfynu buddsoddi mewn ffonau pen sy'n hollti fel bod dau blentyn yn gallu gwrando ar yr un darn o gerddoriaeth.

Roedd y plant wrth eu bodd yn cyfansoddi'u cerddoriaeth eu hunain a gwrando ar eraill. Fe wnaethom ni ddarganfod bod doniau cudd gan lawer o'r plant ac roedd eu darnau terfynol yn llawer mwy diddorol na rhai'r athrawon!

Cyflwynwyd yr erthygl gan Karen David, Cydlynydd TGCh yn Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill

Canolbwyntio ar Ysgol Gynradd Cwmglas

Roeddem ni am greu gwefan a oedd yn adlewyrchu ethos ac awyrgylch ein hysgol, a thrwy ddefnyddio ***'ik'*** yn greadigol teimlwn ein bod wedi cyflawni hyn. Fe wnaethom ni ddewis ***'ik web builder'*** am ei fod mor hawdd i'w osod, a chyhyd â bod gennych fynediad i'r we gellir ei gael o'r ysgol a gartref.

Fis Medi, sefydlwyd ein Clwb Gwe Blwyddyn 6 sy'n chwarae rôl hanfodol yn cynnal ein gwefan. Maen nhw'n gweithio mewn timoedd sy'n cynnwys Newyddion, Tudalennau Dosbarth, Digwyddiadau, Ffotograffwyr, Golygyddion, a thimoedd Cysylltiadau, gyda phob un yn gyfrifol am faes penodol o'r wefan.

Pan gynhelir digwyddiad arbennig, rydym yn anfon gohebydd a ffotograffydd i ddilyn y stori. Daw'r eitem at ei gilydd yn y Clwb Gwe, a'i hanfon at y tîm golygu sy'n ei gwirio ar gyfer cywirdeb ac yn ei llwytho i fyny i'n gwefan.

Mae creu a chynnal gwefan yn llawer o waith, ond pan fyddwch yn gweld yr ymateb cadarnhaol yn ein llyfr gwesteion mae'n bendant yn werth chweil. Peidiwch ag anghofio ymweld â'n gwefan ar:

www.cwmglasprimary.ik.org

Cyflwynwyd yr erthygl gan Angela O'Sullivan, Technegydd Cefnogi TG yn Ysgol Gynradd Cwmglas

Holiadur Anghenion Datblygu Staff TGCh

Diolch yn fawr i bob ysgol a fu'n cymryd rhan yn ein ymarfer HADS TGCh diweddar. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn y broses o ddadansoddi'r canlyniadau i fwydo i'n rhaglen cwrs byr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Yn fuan ar ôl hanner tymor, bydd pob ysgol yn derbyn adborth unigol ar y fenter hon. Bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi i drefnu rhaglen hyfforddi TGCh, yn seiliedig ar eich anghenion penodol, ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Meddalwedd ar gyfer Anturiaethau ac Efelychiadau

Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn argymell y meddalwedd canlynol ar gyfer Anturiaethau ac Efelychiadau mewn Ysgolion Cynradd:

Blynyddoedd Cynnar: My Modelling Toolkit (Granada), Izzy's Island (Sherston), Charlie Chimp's Modelling Party (Sherston), Little Brown Bear (Sherston)

Cyfnod Allweddol 1: Teacher's Cupboard (Sherston), Bucket and Spade (Sherston), Number Train (Sherston), Elf Tales (Sherston), Teddy Bear's Picnic (Sherston), Number Plane (Sherston), Granny's Garden (Sherston)

Cyfnod Allweddol Is 2: Matti Mole (Sherston), Simulation Explorer (Granada), Badger Trails (Granada), The Nature Park (Sherston), Map Detectives (Sherston), Lost in the Labyrinth (Sherston), E-Mail Detectives (Sherston)

Cyfnod Allweddol Uwch 2: Map Detectives (Sherston), Web Detectives (Sherston), Zoombinis (Broderbund), Crystal Rainforest 2000 (Sherston), Mission Control (Sherston), Underwater Rescue

Prosiect L^{e}AP

Mae Celfyddydau mewn Addysg yn cynnal prosiect cyffrous gydag Ysgol Gyfun Pontarddulais a'i hysgolion cynradd Partner.

Prosiect cyfryngau yw L^{e}AP sy'n canolbwyntio ar y trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd. Y nod yw defnyddio'r celfyddydau fel porth i alluogir trosglwyddiad llyfnach rhwng ysgolion.

Cynllunir y prosiect TGCh fel rhan o'r rhaglen Artistiaid Preswyl. Gydag arweiniad yr artist Alastair Duncan, caiff pecyn cyfryngau/CD Rom, yn seiliedig ar y we, ei gynhyrchu gan ddisgyblion ar gyfer disgyblion.

Bydd cynnwys y pecyn cyfryngau yn canolbwyntio ar 'fywyd ysgol' hynny yw, pob agwedd, pwnc, bugeilio etc y gwelwyd eu bod o ddiddordeb i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Yn y dyfodol, gobeithio y daw'n adnodd i ddisgyblion ysgol gynradd cyn iddynt symud i ysgol uwchradd.



Cyflwynwyd yr erthygl gan Carolyn Davies, Cydlynydd y Celfyddydau

Geiriau ac ymadroddion dwyieithog i'w defnyddio gyda TGCh

Ewch i'r stafell gyfrifiaduron
Go to the Computer suite

Mewngofnodwch
Pawb, mewngofnodwch nawr os gwelwch yn dda.
Everybody, log in now, please.

Allgofnodwch
Pawb, allgofnodwch nawr os gwelwch yn dda.
Everybody, log out now, please.

Defnyddio'r Bwrdd Gwyn rhyngweithiol
Using the Interactive White board

Tynnwch gylch o gwmpas y gair…
Draw a circle around the word …

Amlygwch y gair …
Highlight the word …

Gorchmynion/*Commands*

chwiliwch am eich ffeil
look for your file
agorwch eich ffeil
open your file
adalwch eich gwaith
retrieve your work
teipiwch eich stori
type your story
mewnosodwch eich llun
import your graphic
cadwch eich gwaith
save your work
cadwch eich ffeil
save your file
llwythwch eich ffeil
load your file
argraffwch eich ffeil
print your file
cadw llun o'r we
save an image from the internet
llusgosodwch lun
drag and drop a graphic

Dw i'n gallu …/I can …

chwilio am ffeil
look for a file
agor ffeil
open a file
adalw gwaith
retrieve work
teipio stori
type a story
mewnosod llun
import a graphic
cadw gwaith
save work
cadw ffeil
save a file
llwytho ffeil
load a file
argraffu ffeil
print a file
cadw llun o'r we
save an image from the internet
llusgosod llun
drag and drop a graphic

Cyfrifiadur Cymraeg!
A Welsh Computer!

Cyflwynwyd yr erthygl gan Mary-Lynne Jones, Athrawes Ymgynghorol, Canolfan Gymraeg San Helen